

Negeseuon allweddol o waith ymchwil: Gweithwyr cymdeithasol

Maddy Coy, Nicola Sharp-Jeffs a Liz Kelly

Ionawr 2017

Papur briffio i weithwyr cymdeithasol yw hwn. Mae'n dwyn ynghyd y negeseuon allweddol o waith ymchwil ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant a'r goblygiadau ar gyfer ymarfer. Dylid darllen hyn ar y cyd â'r canllawiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol [\[Dolenni at y canllawiau Cymraeg a'r canllawiau Saesneg\]](#).

Negeseuon allweddol

- Mae camfanteisio rhywiol yn gallu digwydd i bobl ifanc o bob cefndir. Er mai merched ifanc yw'r mwyafrif o'r dioddefwyr, mae camfanteisio'n gallu digwydd i fechgyn a dynion ifanc hefyd.
- Gall rhai pobl ifanc fod yn fwy agored i niwed – y rheini sydd wedi cael eu cam-drin yn y gorffennol, y rheini sy'n ddiartref, sy'n camddefnyddio alcohol a chyffuriau, y rheini sydd ag anabledd, mewn gofal, sydd ddim mewn addysg, y rheini sydd wedi rhedeg i ffwrdd/yn mynd ar goll o'u cartrefi neu o'u lleoliad gofal neu'r rheini sydd mewn gangiau.
- Mae pryder, euogrwydd a chywilydd yn deimladau grymus sy'n rhwystro pobl ifanc rhag gofyn am help.
- Os yw'r bobl ifanc y cam-fanteisir arnynt yn rhan o weithgarwch troseddol hefyd, mae'n bosib mai dim ond fel troseddwyr y byddant yn cael eu gweld yn hytrach na'u gweld fel dioddefwyr camfanteisio.
- Rhaid i'r cymorth fod yn ddwys ac wedi'i seilio ar berthynas os yw'n gorfod gwrthbwysu 'tynfa' y sawl sy'n camfanteisio.
- Mae'n hollbwysig annog pobl ifanc i siarad – mae angen i weithwyr cymdeithasol ddefnyddio 'chwilfrydedd proffesiynol', gan ddefnyddio ffyrdd parchus i ofyn cwestiynau anodd.
- Mae ymwneud eto ag addysg, â ffrindiau nad ydynt yn gysylltiedig â'r camfanteisio, ac â theulu yn gallu helpu pobl ifanc i greu cyswllt eto gyda'r 'angorion cymdeithasol' hanfodol.
- Gall rhannu gwybodaeth â'r heddlu (gan gynnwys llysenwau, cyfeiriadau, manau lle mae'r camfanteisio yn digwydd, rhifau ffonau symudol, cwmnïau tacsï, rhifau cofrestru ceir ayb) gyfrannu at ymdrechion lleol i darfu ar hyn.

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn ffurf ar gam-drin plant yn rhywiol lle ceir elfen o gyfnawid a budd i'r drwgweithredwyr. Does dim un ffordd benodol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (CEOP, 2011; Berelowitz et al. 2012; Gohir, 2013; Research in Practice a Phrifysgol Greenwich, 2015). Mae meithrin perthynas amhriodol yn gyffredin mewn ambell ffurf ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ond nid yw hynny'n digwydd bob tro (Beckett, 2011; Melrose, 2013). Mae camfanteisio ar-lein ac all-lein yn gallu gorgyffwrdd (Fox a Kalkan, 2016). Ni ellir cymryd bod plant a phobl ifanc yn cydsynio os ydynt yn ymddangos eu bod yn cydweithredu: yn ôl y gyfraith, maent yn bobl ifanc dan oed a gallant gael eu gorfodi a'u rheoli mewn sawl ffordd. Mae'r ffyrdd hyn o gamddefnyddio pŵer yn debyg i'r rhai a welir mewn achosion o drais domestig.

Er bod tystiolaeth yr holl ymchwil hyd yma yn dangos mai genethod a merched ifanc yw'r mwyafrif helaeth o'r dioddefwyr, mae camfanteisio rhywiol yn gallu digwydd i fechgyn a dynion ifanc hefyd. Ar gyfartaledd, rhwng 12 a 15 oed yw'r oedran y daw pryderon i'r amlwg am y tro cyntaf er bod astudiaethau diweddar yn dangos bod mwy a mwy o bobl ifanc rhwng 8 ac 11

oed yn cael eu hatgyfeirio, yn enwedig yng nghyswllt camfanteisio ar-lein. Nid oes cymaint o wybodaeth ar gael am gamfanteisio ar blant a phobl ifanc o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME), a Phobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) (Ward a Patel, 2006; Gohir, 2013; Coy, 2016a; Sharp, 2015; Fox, 2016). Nid oes dioddefwr 'nodweddiadol'.

Wedi dweud hynny, gall rhai pobl ifanc fod yn fwy agored i niwed nag eraill. Mae amryw o ddangosyddion wedi cael eu nodi y dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol ohonynt. Mae'r rhain yn cynnwys: cam-drin blaenorol yn y teulu, amddifadedd; digartrefedd; camddefnyddio sylweddau; anabledd; bod mewn gofal; rhedeg i ffwrdd/mynd ar goll a chysylltiadau â gangiau (Beckett et al. 2013; Brown et al. 2016; Coy, 2009; Franklin, Raws a Smeaton, 2015; Harris a Robinson, 2007; Klatt et al. 2014; Jago et al. 2011; Smeaton, 2013). Nid ydym yn gwybod a yw'r rhain yn berthnasol hefyd i bobl ifanc lle mae'r broses o gamfanteisio arnynt yn cychwyn ar-lein neu'n digwydd yn llwyr ar-lein, er bod ambell ffactor i'w weld yn codi yn y ddau gyd-destun (Whittle et al. 2013). Dynion yw mwyafrif y troseddwy, a merched yw'r lleiafrif. Mae camfanteisio rhywiol yn gallu tynnu cyfoedion i fod yn rhan hefyd mewn ffyrdd cymhleth, fel hwyluswyr, camdrinwyr neu wylwyr (Firmin, 2011; Beckett et al. 2013).

Nid yw dangosyddion yn dystiolaeth bod camfanteisio rhywiol wedi digwydd. Yr unig beth maent yn ei wneud yw dweud wrthyh chi bod angen i chi ddefnyddio'ch barn a'ch chwilfrydedd proffesiynol i weld beth yw sefyllfa pob person ifanc. Y cam cyntaf yw rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau; yr ail gam fydd sgwrs sensitif ond holgar gyda'r bobl ifanc.

Dylai gweithwyr cymdeithasol gymryd yn ganiataol bod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn broblem genedlaethol, sy'n digwydd yn eich ardal leol, a gweithredu mewn modd rhyngweithiol i adnabod y dioddefwyr.

Gwahoddiad i ddweud

Mae'n bosib bod pobl ifanc sydd wedi dioddef yn sgil camfanteisio rhywiol wedi cael profiad o sawl math o gamdriniaeth ac o golli ffydd mewn pobl, gan ei gwneud yn eithriadol o anodd iddynt siarad am yr hyn sy'n digwydd. Weithiau, mae'r pŵer sydd gan weithwyr cymdeithasol statudol yn gallu creu haen arall o amheuaeth, wrth i bobl ifanc ofni beth fyddai'r canlyniadau iddynt hwy eu hunain, eu brodyr a'u chworydd ac aelodau'r teulu pe byddent yn datgelu (Firmin, 2011; Beckett et al. 2013). Gall hyn fod yn gysylltiedig hefyd â rhagdybiaethau am weithwyr cymdeithasol neu brofiadau negyddol yn y gorffennol gydag ymyriadau proffesiynol. Yn ogystal â hyn, mae'n bosib y byddant yn ofni y bydd y camdrinwyr yn dial arnynt neu eu bod yn mynd yn ddibynnol arnynt am gariad, gwarchodaeth neu gyffuriau (Beckett a Warrington, 2015; Gilligan, 2016; Hughes a Thomas, 2016). Mae ofni na fydd neb yn eu credu neu ofni cael y bai, a themlo cywilydd a phryder, yn gallu bod yn elfennau grymus sy'n rhwystro unigolion rhag datgelu. Mae rhoi sicrwydd i bobl ifanc y bydd rhywun yn eu credu, ac nad eu bai nhw yw'r camfanteisio, yn negeseuon pwysig i'w cyfleu; maent yn rhan o'r gwahoddiad i ddweud.

Mae annog pobl ifanc i siarad yn agored yn hollbwysig. Mae chwilfrydedd proffesiynol yn hanfodol: holi mewn modd parchus am arwyddion posib o gamfanteisio rhywiol e.e. heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a beichiogrwydd, rhoddion ac arian heb esboniad amdano, rhedeg i ffwrdd/mynd ar goll o'r cartref neu leoliad addysg, ynysu eu hunain rhag y teulu a/neu rwydweithiau cyfoedion (gweler er enghraifft, Barnardo's, 2012). Os yw'r bobl ifanc y camfanteisir arnynt yn rhan o ymddygiad troseddol hefyd, mae'n bosib mai dim ond fel troseddwy

y byddant yn cael eu gweld yn hytrach na'u gweld fel dioddefwyr camfanteisio (Firmin, 2011; Sturrock a Holmes, 2015). Gall dangos chwilfrydedd proffesiynol a chymryd amser i ofyn rhagor o gwestiynau fynd o dan wyneb y drosedd dan sylw, a dangos o bosib bod y person ifanc yn cael ei gam-drin hefyd. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol mewn achosion lle mae'n ymddangos bod person ifanc yn helpu i gamfanteisio ar un o'i gyfoedion (Beckett, 2011; Ghani, 2016). Mae meithrin yr hyder i holi a oes delweddau o bobl ifanc wedi'u creu yn gyfle arall i'w gwahodd i ddweud (Martin, 2016). Mae pryderon penodol yn gysylltiedig â delweddau rhywiol e.e. y gallent gael eu cylchredeg ar-lein am gyfnod amhenodol, a bydd angen mynd i'r afael â hyn.

Yn olaf, mae meithrin ymddiriedaeth sy'n galluogi pobl ifanc i siarad yn dibynnu ar ddweud yn glir beth yw terfynau cyfrinachedd. Os bydd yn rhaid rhannu gwybodaeth, dylai pobl ifanc wybod pwy fydd yn cael gwybod a beth allai ddigwydd nesaf. Bod yn onest am yr hyn a allai ddigwydd yw sail perthynas sydd wedi'i seilio ar barch.

Ymarfer sy'n seiliedig ar berthynas

“Dydy'r ffaith fy mod i wedi ymddwyn fel petaswn i ddim yn agored i niwed ddim yn golygu mod i ddim yn agored i niwed1”¹

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn golygu cam-drin emosiynol, seicolegol, rhywiol ac yn aml iawn, cam-drin corfforol. Mae effeithiau hyn yn gallu golygu bod pobl ifanc yn ymddangos yn amharod i gydweithredu neu'n ymosodol hyd yn oed ac yn gwrthod ymwneud â gofalwyr a gweithwyr proffesiynol (Coy, 2009; Beckett a Warrington, 2015; Hickie, 2016; Leon a Raws, 2016; Pearce, 2009). Mae'n hollbwysig creu perthynas fel bod y bobl ifanc yn teimlo eu bod yn bwysig i rywun a bod modd mynd ati i feithrin yr ymddiriedaeth (Bartlett, 2016; Coy, 2009, 2016; Firmin, 2016; Sidebotham et al. 2016; Shuker, 2013). Mae gan weithwyr cymdeithasol rôl hanfodol i'w chwarae o ran datblygu'r perthnasoedd hyn, ynghyd â gofalwyr a gweithwyr cymorth eraill.

Mae parchu gallu'r bobl ifanc i wneud penderfyniadau am eu bywydau yn gallu bod yn anodd pan fyddant yn cael niwed. Efallai na fydd rhai'n gweld bod y drwgweithredwr yn eu cam-drin neu yn eu rheoli, efallai y byddant yn credu eu bod mewn cariad (Pearce, 2009). Nid yw hyn yn golygu bod camfanteisio rhywiol yn llai camdriniol, ond mae'n gofyn bod gweithwyr proffesiynol yn delio â hyn yn ofalus. Os yw pobl ifanc yn credu bod y rheini sy'n camfanteisio arnynt yn eu caru ac yn eu gwerthfawrogi, byddant yn amharod iawn i glywed eu bod yn cael eu cam-drin, a gall hyn beri iddynt deimlo'n ansefydlog iawn.

Mae cymryd yr amser i edrych ar syniadau am berthnasoedd, y norm o ran y rhywiau a rhywioldeb – rhywioli cyrff merched ifanc a safonau gwrywdod (yr hyn mae'n ei olygu i fod yn fachgen neu'n ddyn ifanc) – yn hanfodol i ferched a dynion ifanc (Coy, 2008; 2016a; Brayley et al. 2014). Os bydd pobl ifanc yn gweld mai dim ond yn dilyn cael gwybod am weithgarwch rhywiol neu gam-drin y mae gweithwyr proffesiynol yn cysylltu â nhw, gall hyn atgyfnerthu'r syniad mai dim ond gwerth rhywiol sydd iddynt (Coy, 2008). Yn fwy cyffredinol, mae angen i weithwyr cymdeithasol ofalu rhag ail-greu dynameg camdriniol yn anfwriadol drwy wneud i bobl ifanc deimlo eu bod yn colli grym neu nad ydynt yn gallu rheoli sefyllfaoedd (Warrington, 2016). Mae galluogi pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau a wneir am eu

¹ Merch ifanc, a ddyfynwyd yn Brown 2006

bywydau yn hanfodol i'w gwarchod, gan fod hyn yn gallu eu cadw mewn perthynas sy'n cynnig cefnogaeth broffesiynol (Warrington, 2016).

Mae gwaith sy'n seiliedig ar berthynas sy'n rhoi sylw i gamfanteisio rhywiol yn waith emosiynol dros ben, felly mae'n bwysig cael cefnogaeth, amser i bwysu a mesur a goruchwyliaeth reolaidd.

Gweithio gyda gwasanaethau eraill

Mae camfanteisio rhywiol yn aml yn broses, ac mae galluogi pobl ifanc i ddod o hyd i ffordd allan yn gallu bod yn debyg i helpu'r rheini sydd wedi dioddef trais domestig: canolbwyntio ar gryfderau; asesu risg a chreu mwy o le i weithredu – proses sydd wedi'i galw yn 'ddiogelu cyson' (Pearce, 2009). Rhaid i'r cymorth fod yn ddwys er mwyn i bobl ifanc gael yr ymdeimlad o ddiogelwch sydd ei angen arnynt i wrthbwysu 'tynfa' camfanteiswyr (Coy, 2009; Gilligan, 2016; Shuker, 2013). Mae hyn yn cynnwys gwaith maes rhagweithiol, gan gynnwys galwadau ffôn a negeseuon tecstio dyddiol, curo drysau a ffyrdd eraill o gadw cysylltiad, hyd yn oed pan fydd y cymorth hwn yn cael ei wrthod ar y cychwyn, neu dro ar ôl tro (Oxford Brookes University, 2015; Warrington, 2013).

Mae gwasanaethau arbenigol ar gamfanteisio rhywiol – yn y sector statudol a gwirfoddol - yn aml yn gallu bod yn fwy hyblyg ac maent yn gweithio gyda phobl ifanc am y cyfnod sy'n angenrheidiol (Coy, 2016a; Gilligan, 2016).

“Rydych chi'n teimlo'n fwy agored gyda nhw. Maen nhw'n fwy agored gyda chi; fel ffrind... Dydyn nhw ddim yn eich barnu chi... Maen nhw'n eich helpu i fod yn berson gwell. Dydyn nhw ddim yn dweud 'gwranda, ti fel hyn, ti fel arall'. Maen nhw'n eich helpu chi ac fe wnawn nhw unrhyw beth i'ch helpu i'ch cael chi allan o drwbl”²

Mae mynd ati'n rhagweithiol i gysylltu plant a phobl ifanc â gwasanaethau cymorth arbenigol yn hanfodol (Beckett et al. 2015; Cossar et al, 2013). Gallant fod yn bont rhyngddynt hwy a'r gweithwyr cymdeithasol (Coy, 2016a), gan chwalu'r ofn a'r amheuaeth er mwyn 'datgloi' canlyniadau cadarnhaol (Shuker, 2013). Bydd gwaith lleol ar Drais yn erbyn Menywod a Genethod a sefydliadau arbenigol yn gysylltiadau defnyddiol, yn ogystal â phartneriaethau gyda gwasanaethau eraill i fynd i'r afael ag anghenion penodol pobl ifanc e.e. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

Mae galluogi pobl i gael cyswllt ag addysg a gweithgareddau cymdeithasol yn bwysig hefyd. Mae llawer o bobl ifanc sydd wedi dioddef yn sgil camfanteisio rhywiol yn siarad am golli gobaith ar gyfer y dyfodol, yn credu yn bod yn ddiwerth ac yn methu gweld ffordd allan (Coy, 2008; Gilligan, 2016). Mae cymorth i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a gweithgareddau cymdeithasol newydd yn rhoi cyfle i bobl ifanc gwrdd â ffrindiau newydd nad ydynt yn rhan o'r rhwydweithiau camfanteisio, dod i adnabod eu sgiliau creadigol a deallusol, gan ddangos ei bod yn bosib breuddwydio a chael dyfodol gwahanol. Mae hyn hefyd yn gallu lliniaru effeithiau pontio y tu hwnt i 18 oed fel bod pobl ifanc wedi datblygu rhwydweithiau cefnogi parhaus.

² Merch ifanc, a ddyfynnwyd yn Gilligan, 2016

Cynnwys rhieni a gofalwyr maeth

Mae helpu rhieni i gynnal perthynas gyda'u plant hefyd yn gallu helpu i 'dynnu' person ifanc yn ôl o grafangau camfanteisiwr (D'Arcy et al, 2015; Gibbons, 2014). Gall gweithwyr proffesiynol gamgymryd bod rhieni'n fodlon neu'n gallu amddiffyn eu plant rhag camfanteisio, ond yr hyn sydd ei angen arnynt, mewn gwirionedd, yw cefnogaeth a chynghor i allu gwneud hynny (Smeaton, 2013). Ac eto mae teuluoedd/gofalwyr yn gallu bod yn hanfodol i greu a chynnal rhwydweithiau gwarchodol (Hallett, 2015).

Ar yr un pryd, mae'n hollbwysig penderfynu a yw'n ddiogel cynnwys rhieni. Efallai eu bod nhw'n rhan o'r camfanteisio neu'r cam-drin (Itzin, 2001). Efallai y bydd rhai pobl ifanc sy'n dioddef yn sgil camfanteisio rhywiol yn delio â chyd-destun teuluol a chymunedol ar yr un pryd, a gallai'r ffaith bod rhywun yn rhoi gwybod am gamdriniaeth arwain at risg o fathau eraill o niwed, gan gynnwys priodas dan orfod a thrais ar sail 'anrhydedd' (Sharp-Jeffs, 2016).

Er ei bod yn briodol, weithiau, i gymryd plant a'u rhoi mewn gofal, mae peryg bod gwahanu pobl ifanc oddi wrth eu teulu a'u ffrindiau yn eu hatal rhag cael y perthnasoedd gwarchodol a'r gefnogaeth. Mae lleoliadau lleol gyda gofalwyr maeth sydd wedi'u hyfforddi i gefnogi pobl ifanc sy'n dioddef yn sgil camfanteisio rhywiol, lle bo hyn ar gael, yn gallu bod yn opsiwn cadarnhaol (Shuker, 2013).

Camfanteisio rhywiol a phobl ifanc mewn gofal

Mae'r cysylltiad rhwng pobl ifanc 'sy'n derbyn gofal' a chamfanteisio rhywiol yn cael ei gydnabod yn gyffredinol ond nid yw mor hawdd ei ddeall (Beckett, 2011; Coy, 2009; Shuker, 2013). Er bod y problemau sy'n arwain at roi pobl ifanc yng ngofal yr awdurdod lleol yn gallu eu rhoi mewn perygl, mae'r profiad o ofal hefyd yn gallu bod yn arwyddocaol, yn rhannol oherwydd yr amryw brosesau pontio a geir wrth newid lleoliad.

Mae angen i weithwyr cymdeithasol a darparwyr gofal ystyried sut mae lliniaru:

- yr annigonolrwydd yn y gofal a ddarperir e.e. absenoldeb ymarfer sy'n seiliedig ar berthynas, esgeuluso lles pobl ifanc (Coy, 2008; 2009; Hallett, 2015);
- yr ansefydlogrwydd emosiynol a ddaw wrth symud lleoliad sawl gwaith a newid gweithiwr cymdeithasol (Coy, 2008; 2009);
- y cyswllt â chyfoedion sydd hefyd mewn perygl mawr (Coy, 2008; 2009; Beckett, 2013);
- drwgweithredwyr sy'n targedu pobl ifanc sy'n llai tebygol o fod â rhwydweithiau cefnogi cadarn, gan ei gwneud yn fwy posib iddynt eu hynysu a'u rheoli (Smeaton, 2013).

Mae'n bosib y bydd pobl ifanc sydd wedi cael eu masnachu ar draws ffiniau rhyngwladol at ddibenion camfanteisio rhywiol yn cael eu rhoi hefyd yng ngofal yr awdurdod lleol (Pearce et al. 2009). Yn yr achos hwn, dylai unrhyw gamau i warchod rhag niwed gael blaenoriaeth dros bryderon ynghylch oedran neu statws mewn fudo (Pearce et al. 2009). Gall pobl ifanc gael eu symud o amgylch gwahanol lefydd yn y DU drwy fasnachu mewnol (Brayley a Cockbain, 2014). Mae'n bosib y bydd canllawiau ar sut i ymateb i fasnachu yn berthnasol [\[hyperddolen at NRM, canllawiau ar fasnachu pobl\]](#).

Nid yw camfanteisio rhywiol yn stopio pan fydd rhywun yn 18 oed (Coy, 2016b), ac mae'r cyfnod pontio â gwasanaethau oedolion yn golygu bod rhai pobl ifanc yn llithro drwy'r rhwyd. Gall gweithwyr cymdeithasol wneud yn siŋr bod pob person ifanc mewn cysylltiad â gwasanaethau cymorth lleol priodol, gan gynnwys drwy unrhyw ffordd berthnasol o ddiogelu oedolion.

Ymyrraeth gynnar, atal a tharfu

Mae gweithio'n agos gyda gwasanaethau arbenigol a theuluoedd yn rhoi mwy o gyfleoedd i darfu ar achosion o gamfanteisio rhywiol yn y camau cynnar (Research in Practice a Phrifysgol Greenwich, 2015). Un elfen o'r ymgysylltu rhwng gweithwyr cymdeithasol a rhieni a gofalwyr yw tynnu sylw at ddangosyddion camfanteisio rhywiol a rhoi gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i bobl ifanc yn lleol . Gall gwasanaethau arbenigol ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant edrych ar y pryderon ynghylch diogelwch gyda gweithwyr proffesiynol lleol eraill (Harris et al, 2015).

Hefyd, rhaid canolbwyntio ar y drwgweithredwyr wrth atal a tharfu ar achosion o gamfanteisio rhywiol. Mae'n bwysig bod gweithwyr cymdeithasol yn rhan o fforymau aml-asiantaeth lleol ar gamfanteisio rhywiol. Mae modd rhannu gwybodaeth (gan gynnwys llysenwau, cyfeiriadau, manau lle mae'r camfanteisio'n digwydd, rhifau ffonau symudol, cwmnïau tacsï, rhifau cofrestru ceir ayb) er mwyn i'r heddlu allu targedu unigolion, lleoliadau a manau cyfarfod. Gall cysylltu â phartneriaid yr awdurdod lleol fel wardeniaid parciau, glanhawyr strydoedd, adrannau trwyddedu ac iechyd a diogelwch fod yn effeithiol hefyd o ran tarfu ar ddrwgweithredwyr (Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi, 2016; D'Arcy a Thomas, 2016). Y bwriad yma yw gwahodd pobl o'r fath i fod yn 'llygaid a chlustiau' lleol, i fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu rhwydwaith cymunedol gwarchodol (Nelson, 2016; Firmin, 2016).

Cyfeiriadau

- Barnardo's (2012) *Cutting them free How is the UK progressing in protecting its children from sexual exploitation?* Barking: Barnardo's
- Bartlett, G. (2016) *Triennial analysis of serious case reviews (2011-2014): practice briefing for the police and criminal justice agencies* Totnes: Research in Practice
- Beckett, H. (2011) *Not a World Away: The Sexual Exploitation of Children and Young People in Northern Ireland* Barnardo's: Belfast
- Beckett, H. (2013) *Looked After Young People and CSE: a View from Northern Ireland in Melrose, M. a Pearce, J. (eds.) Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking* pp. 96-109 Basingstoke: Palgrave Macmillan
- Beckett H gyda Brodie I., Factor F., Melrose M., Pearce J., Pitts J., Shuker L. a Warrington C. (2013) *'It's Wrong...But You Get Used to It': A Qualitative Study of Gang-associated Sexual Violence and Exploitation* Luton: Prifysgol Swydd Bedford
- Beckett, H. a Warrington, C. (2015) *Making Justice Work: experiences of criminal justice for children and young people affected by sexual exploitation as victims and witnesses* Luton: Prifysgol Swydd Bedford
- Berelowitz, S., Firmin, C., Edwards, G. ac Gulyurtlu, S. (2012) *"I thought I was the only one. The only one in the world" interim report* Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Plant
- Brayley, H. a Cockbain, E. (2014) *British Children Can Be Trafficked Too: Towards an Inclusive Definition of Internal Child Sex Trafficking* *Child Abuse Review* 23: 171–184
- Brayley, H.; Cockbain, E. a Gibson, K. (2014) *Rapid evidence assessment – the sexual exploitation of boys and young men* Barking: Coleg Prifysgol Llundain
- Brown, S., Brady, G., Franklin, A., Bradley, L., Kerrigan, N. ac Sealey, C. (2016) *Child Sexual Abuse and Exploitation: Understanding Risk and Vulnerability* Coventry: Prifysgol Coventry
- CEOP (2011) *Scoping Report on Missing and Abducted Children* Llundain: CEOP
- Coy, M. (2008) *Young Women, Local Authority Care and Selling Sex* *British Journal of Social Work* 38 (7), 1408-1424
- Coy, M. (2009) 'Moved Around Like Bags of Rubbish Nobody Wants' How Multiple Placement Moves Can Make Young Women Vulnerable to Sexual Exploitation *Child Abuse Review* 18(4): 254-266
- Coy, M. (2016a) *'We don't get this at school: The Safe Choices Reaching Communities Project final evaluation report* Llundain: CWASU
- Coy, M. (2016b) *Joining the dots on sexual exploitation of children and women: A way forward for UK policy responses* *Critical Social Policy* Cyhoeddwyd ar-lein 5 Mai
- D'Arcy, K. Dhaliwal, S. Thomas, R. gyda Brodie, I. a Pearce, J. (2015) *Families and Communities Against Child Sexual Exploitation (FCASE) Final Evaluation Report* Luton: Prifysgol Swydd Bedford, Y Ganolfan Ryngwladol

- D'Arcy, K. ac Thomas, R. (2016) *Nightwatch: CSE in Plain Sight – final evaluation report* Luton: Prifysgol Swydd Bedford, Y Ganolfan Ryngwladol
- Firmin, C. (2011) *This is it. This is my life...The Female Voice in Violence Project Final report* Llundain: Race on the Agenda
- Firmin, C. (2016) *A strategic needs assessment: interim report* Luton: Prifysgol Swydd Bedford
- Fox, C. (2016) *'It's not on the radar' The hidden diversity of children and young people at risk of sexual exploitation in England* Barkingside: Barnardo's
- Franklin, A., Raws, P. ac Smeaton, E. (2015) *Unprotected, overprotected: meeting the needs of young people with learning disabilities who experience, or at risk of, sexual exploitation* Barkingside: Barnardo's
- Ghani, N (2016) *'Now I know it was wrong': Report of the parliamentary inquiry into support and sanctions for children who display harmful sexual behaviour* Barkingside: Barnardo's
- Gibbons, G (2014) *The Relational Safeguarding model: best practice in working with families affected by child sexual exploitation* Leeds: Parents Against Child Exploitation
- Gilligan, P. (2016) Turning it around: what do young women say helps them to move on from child sexual exploitation? *Child Abuse Review* 25(2): 115-127
- Gohir, S. (2013) *Unheard voices: sexual exploitation of Asian girls and young women* Llundain: Muslim Women's Network UK
- Hallett, S. (2015) 'An Uncomfortable Comfortableness': 'Care', Child Protection and Child Sexual Exploitation *British Journal of Social Work*: 1–16
- Harris, J., Roker, D., D'Arcy, K., Shuker, L. gyda Brodie, I. a Pearce, J. (2015) *CSEFA Hub and Spoke Evaluation: Year Two Progress Report and Interim Findings 2014-15* 15 Luton: Prifysgol Swydd Bedford, Y Ganolfan Ryngwladol
- Hickle, K. (2016) *A Trauma informed approach, child sexual exploitation and Related Vulnerabilities* Luton: Prifysgol Swydd Bedford, Y Ganolfan Ryngwladol
- Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi (2016) *Missing children: who cares? The police response to missing and absent children* Llundain: Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi
- Hughes, C. a Thomas. M. (2016)) *Gelli ymddiried ynof i... ' Pobl ifanc yn mynd ar goll ac sy'n cael, neu mewn perygl o gael, eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol yng Ngogledd Cymru* Barkingside: Barnardo's
- Itzin, C. (2001) Incest, Paedophilia, Pornography and Prostitution: Making Familial Males More Visible as the Abusers *Child Abuse Review* 10: 35–48
- Jago, S., Arocha, L., Brodie, I., Melrose, M., Pearce, J. a Warrington, C. (2011), *What's Going on to Safeguard Children and Young People from Sexual Exploitation? How Local Partnerships Respond to Child Sexual Exploitation* Luton: Prifysgol Swydd Bedford
- Leon, L. a Raws, P. (2016) *Boys don't cry: improving identification and disclosure of sexual exploitation among boys and young men trafficked to the UK* Llundain: Children's Society
- Martin, J. (2016) Child Sexual Abuse Images Online: Implications for Social Work Training and Practice *British Journal of Social Work* 46 (2): 372-388

- Prifysgol Oxford Brookes (2015) *Supporting Children and Young People at Risk of Sexual Exploitation: Rapid Research Review* Hampshire: Cyngor Sir Hampshire
- Pearce, J. (2009) *Young people and sexual exploitation: It isn't hidden, you just aren't looking* Llundain: Routledge Falmer
- Pearce, J., Hynes, P. ac Bovarnick, S. (2009) *Breaking the wall of silence: Practitioners' responses to trafficked children and young people* Llundain: NSPCC
- Research in Practice a Phrifysgol Greenwich (2015) *Working effectively to address Child Sexual Exploitation: A briefing* Totnes: Research in Practice
- Sharp, N. (2013) Missing from discourse: *South Asian young: women and sexual exploitation in Melrose, M. and Pearce, J. (eds.) Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking* pp. 96-109 Basingstoke: Palgrave Macmillan
- Sharp-Jeffs, N. (2016) *A lot going on: the links between going missing, forced marriage and child sexual exploitation* exploitation Luton: Prifysgol Swydd Bedford, Y Ganolfan Ryngwladol (traethawd ymchwil heb ei gyhoeddi)
- Shuker, L. (2013) *Evaluation of Barnardo's Safe Accommodation Project for Sexually Exploited and Trafficked Young People* Luton: Prifysgol Swydd Bedford
- Sidebotham, P., Brandon, M., Bailey, S., Belderson, P., Dodsworth, J., Garstang, J., Harrison, E., Retzer, A. a Sorensen, P. (2016) *Pathways to harm, pathways to protection: a triennial analysis of serious case reviews 2011 to 2014: final report* Llundain: Yr Adran Addysg
- Smeaton, E. (2013) *Running from Hate to What You Think is Love: The Relationship between Running Away and Child Sexual Exploitation* Barkingside: Barnardo's and Paradigm Research
- Sturrock, R. a Holmes, L. (2015) *Running the Risks: The links between gang involvement and young people going missing* London: Catch 22
- Ward, J. a Patel, N. (2006) Broadening the discussion on 'sexual exploitation': ethnicity, sexual exploitation and young people *Child Abuse Review* 15(5): 341-50
- Warrington, C. (2013) Partners in Care? Sexually Exploited Young People's Inclusion and Exclusion from Decision Making about Safeguarding in Melrose, M. and Pearce, J. (golygyddion) *Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking* pp. 110-124 Basingstoke: Palgrave Macmillan
- Warrington, C. (2016) *Young person centred approaches in child sexual exploitation – promoting participation and building self-efficacy* Totnes: Research in Practice
- Whittle, H. C., Hamilton-Giachritsis, C., Beech, A., a Collings, G. (2013) *A Review of young people's vulnerabilities to online grooming Aggression and Violent Behavior*, 18, 135-146

Negeseuon allweddol o ymchwil ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant – hefyd ar gael

- Yr Heddlu
- Comisiynu gwasanaethau'r heddlu'n strategol
- Comisiynu gwasanaethau plant yn strategol
- Staff sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd
- Comisiynu gwasanaethau gofal iechyd
- Gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion
- Gweithio amlasiantaethol

Y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol

www.csacentre.org.uk

©lonawr 2017